TACTEG
CYMRAEG

CWESTIYNAU CWIS:
**Creu Portread – Profwch eich hunain!**

1: Gair sy'n disgrifio enw ydy ansoddair. Darllenwch y disgrifiad yma o Morfudd. Dewiswch yr ansoddair gorau o'r rhestr i gwblhau'r disgrifiad.

Wyneb **du / goch / crwn / smwt** a bodlon sydd gan Morfudd ac arno fop o wallt **du / goch / crwn / smwt** **.** Mae ei llygaid yn fach ac mae ganddi dwy foch **du / goch / crwn / smwt** yn pefrio o'r naill ochr i'w thrwyn **du / goch / crwn / smwt** .

2: Wrth ysgrifennu portread, canolbwyntiwch ar y nodweddion diddorol sy'n gwneud y cymeriad yn wahanol. Darllenwch y rhestr o ddisgrifiadau a dewiswch y pedwar disgrifiad mwyaf diddorol i'w cynnwys yn y portread.

- ☐ Coesau cyffredin
- ☐ Trwyn cam
- ☐ Taldra cymedrol
- ☐ Clustiau fel bresych
- ☐ Breichiau arferol
- ☐ Bysedd hirion
- ☐ Llygaid gweld popeth
- ☐ Gwallt gwalltiog


©BBC

3: Gallwn ddefnyddio idiomau i ddisgrifio beth mae'r cymeriad yn ei wneud.
Dyma restr o idiomau:

**A** - Heb siw na miw

**B** - Gwneud ei orau glas

**C** - â'i wynt yn ei ddwrn

**CH** - Tipyn o dderyn

Pa idiom sy'n cyfateb i'r cymeriad sy'n cael ei ddisgrifio isod?
Ysgrifennwch y llythyren (A-CH) yn y blwch.

| | |
|---|---|
| ☐ | Aeth Aled i'r ysgol yn dawel heb ddweud gair. |
| ☐ | Roedd Dylan o hyd mewn trafferth gyda Mr Ifans am siarad gormod yn y dosbarth. |
| ☐ | Roedd Dafydd bob amser yn trio'n galed i orffen ei waith. |
| ☐ | Rhedodd Arwyn yn gyflym iawn er mwyn cyrraedd yr ysgol ar amser. |

4: Mewn portread mae'n bwysig defnyddio rhagenwau, hynny yw, ef/fo/hi/ganddi/ganddo.
Darllenwch y disgrifiad a dewiswch y rhagenw cywir i gwblhau'r disgrifiad.

Mae Delyth yn ferch fyr fel corrach ac mae **ganddo / ganddi** frychni haul ar draws ei thrwyn. Mae **hi / e** yn hoffi gwisgo dillad du o hyd ac mae **hi / e** wrth ei bodd yn casglu malwod.

Mae Brychan yn llawn drygioni, o hyd yn chwarae triciau ar ei ffrindiau. Mae **hi / e** yn dwlu cynllunio ei branc nesaf ac yn aml bydd ei ffrindiau yn ei ddal yn chwerthin o dan ei wynt wrth **iddi / iddo** feddwl am y tric nesaf. Mae **ganddo / ganddi** hiwmor direidus sy'n ei wneud yn unigryw.


©BBC

# ATEBION CWIS:
# Creu Portread – Profwch eich hunain!

1: Gair sy'n disgrifio enw ydy ansoddair. Darllenwch y disgrifiad yma o Morfudd. Dewiswch yr ansoddair gorau o'r rhestr i gwblhau'r disgrifiad.

Wyneb **crwn** a bodlon sydd gan Morfudd ac arno fop o wallt **du** . Mae ei llygaid yn fach ac mae ganddi dwy foch **goch** yn pefrio o'r naill ochr i'w thrwyn **smwt** .

2: Wrth ysgrifennu portread, canolbwyntiwch ar y nodweddion diddorol sy'n gwneud y cymeriad yn wahanol. Darllenwch y rhestr o ddisgrifiadau a dewiswch y pedwar disgrifiad mwyaf diddorol i'w cynnwys yn y portread.

- ☐ Coesau cyffredin
- ☑ Trwyn cam
- ☐ Taldra cymedrol
- ☑ Clustiau fel bresych
- ☐ Breichiau arferol
- ☑ Bysedd hirion
- ☑ Llygaid gweld popeth
- ☐ Gwallt gwalltiog


©BBC

3: Gallwn ddefnyddio idiomau i ddisgrifio beth mae'r cymeriad yn ei wneud.
Dyma restr o idiomau:

**A** - Heb siw na miw

**B** - Gwneud ei orau glas

**C** - â'i wynt yn ei ddwrn

**CH** - Tipyn o dderyn

Pa idiom sy'n cyfateb i'r cymeriad sy'n cael ei ddisgrifio isod?
Ysgrifennwch y llythyren (A-CH) yn y blwch.

| | |
|---|---|
| **A** | Aeth Aled i'r ysgol yn dawel heb ddweud gair. |
| **CH** | Roedd Dylan o hyd mewn trafferth gyda Mr Ifans am siarad gormod yn y dosbarth. |
| **B** | Roedd Dafydd bob amser yn trio'n galed i orffen ei waith. |
| **C** | Rhedodd Arwyn yn gyflym iawn er mwyn cyrraedd yr ysgol ar amser. |

4: Mewn portread mae'n bwysig defnyddio rhagenwau, hynny yw, ef/fo/hi/ganddi/ganddo.
Darllenwch y disgrifiad a dewiswch y rhagenw cywir i gwblhau'r disgrifiad.

Mae Delyth yn ferch fyr fel corrach ac mae **ganddi** frychni haul ar draws ei thrwyn. Mae **hi** yn hoffi gwisgo dillad du o hyd ac mae **e** wrth ei bodd yn casglu malwod.

Mae Brychan yn llawn drygioni, o hyd yn chwarae triciau ar ei ffrindiau. Mae **e** yn dwlu cynllunio ei branc nesaf ac yn aml bydd ei ffrindiau yn ei ddal yn chwerthin o dan ei wynt wrth **iddo** feddwl am y tric nesaf. Mae **ganddo** hiwmor direidus sy'n ei wneud yn unigryw.



©BBC